# Coleg y Cymoedd

# Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch

1. Yng Ngholeg y Cymoedd rydym wedi ymrwymo i roi'r flaenoriaeth uchaf i iechyd a diogelwch yn ein holl weithgarwch.

2. Rydym yn disgwyl i gydweithwyr, dysgwyr, ymwelwyr, contractwyr a chyflogwyr eraill sy'n gweithio yng Ngholeg y Cymoedd rannu'r ymrwymiad hwn drwy gydymffurfio â'n polisïau a, lle bo'n briodol, ein gweithdrefnau, a deall bod ganddynt hefyd rwymedigaethau cyfreithiol a moesol iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

3. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau iechyd a diogelwch pawb a allai gael eu heffeithio gan ein gweithgarwch drwy'r canlynol:

   a. Darparu, rheoli a chynnal amgylchedd gwaith a dysgu, yn ogystal â chyfleusterau chwaraeon a hamdden, sydd, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn ddiogel a lle caiff peryglon i iechyd eu rheoli.

   b. Darparu cyfleusterau a threfniadau digonol a phriodol ar gyfer iechyd, diogelwch a llesiant yn y gwaith.

   c. Darparu, rheoli a chynnal ein gweithleoedd, tiroedd ac eiddo fel eu bod, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn ddiogel a bod peryglon i iechyd yn cael eu rheoli.

   d. Darparu, rheoli a chynnal peiriannau ac offer fel eu bod, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn ddiogel a bod peryglon i iechyd yn cael eu rheoli.

   e. Sicrhau bod unrhyw waith defnyddio, trin, storio a chludo eitemau a sylweddau yn cael ei wneud yn ddiogel a bod peryglon i iechyd yn cael eu rheoli.

   f. Gweithredu systemau gwaith sy'n ddiogel a lle mae peryglon i iechyd yn cael eu rheoli.

   g. Darparu'r drefn, yr arbenigedd a'r adnoddau angenrheidiol, gan gynnwys gweithdrefnau cyfathrebu ac ymgynghori, cynllunio, monitro, arolygu ac archwilio i sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael ei reoli'n effeithiol ym mhob rhan o'r Coleg.

   h. Sicrhau bod ein cydweithwyr ac unrhyw gontractwyr a gyflogir gennym yn gymwys ac yn cynnal asesiadau risg ar gyfer yr holl waith maent yn ei reoli.

   i. Darparu'r wybodaeth, y cyfarwyddyd, yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth ar bob lefel sy'n angenrheidiol i sicrhau bod ein cydweithwyr a'n dysgwyr yn ymwybodol o'r peryglon yn eu gweithle, ynghyd â'r mesurau priodol i'w cymryd i amddiffyn rhag y peryglon hyn.

   j. Rhoi gwybodaeth ddigonol am beryglon perthnasol i unrhyw unigolion y gallai'r peryglon hynny effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch.

   k. Monitro perfformiad diogelwch contractwyr sy'n gweithio i ni.

l. Bod yn ymwybodol o'r arferion gorau diweddaraf o ran iechyd a diogelwch a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau a chanllawiau awdurdodol perthnasol.

m. Ymgynghori â’n cydweithwyr a’n dysgwyr a’u cynnwys mewn materion sy’n ymwneud â’u hiechyd a’u diogelwch eu hunain.

4. Lle nad oes unrhyw bolisïau neu ganllawiau gan y Coleg ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i'n cydweithwyr, dysgwyr a chontractwyr fodloni'r safonau perthnasol uchaf a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. Lle nad oes safonau’n bodoli, byddwn yn gweithio gyda’n cydweithwyr i ddatblygu systemau sy’n cydymffurfio ag arferion gorau a dileu neu leihau’r peryglon cyhyd ag y bo’n rhesymol ymarferol.

5. Ein bwriad datganedig yw addysgu ein dysgwyr mewn rheolaeth iechyd a diogelwch drwy ymgorffori'r egwyddorion sylfaenol ym mhob cwrs priodol. Lle bynnag y bo modd, bydd gwybodaeth am y ddeddfwriaeth a'r safonau sy'n berthnasol i'w cwrs hefyd yn cael ei chynnwys.

6. Rydym yn cydnabod bod y Coleg yn sefydliad mawr ac amrywiol. Felly, mae’n rhaid bod gan bob adran drefniadau sy’n disgrifio sut maent yn bwriadu cydymffurfio â’r Datganiad Polisi hwn, gan nodi manylion am beth, gan bwy a sut y bydd iechyd a diogelwch yn cael ei reoli’n lleol.

7. Mae gan y Coleg sawl campws ac mae'n gweithredu ar lawer o safleoedd eraill. Caiff llawer o’r adeiladau eu rhannu rhwng mwy nag un maes addysgu a dysgu, ac mewn rhai achosion, sefydliadau allanol. Mewn amgylchiadau o'r fath byddwn yn sefydlu llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer cydlynu iechyd a diogelwch yn effeithiol rhwng defnyddwyr.

8. Rydym yn ymrwymo i adolygu a datblygu ein systemau rheoli diogelwch yn barhaus, a’n nod cyffredinol yw cynnal ein gweithgareddau mewn modd nad yw’n effeithio ar iechyd a diogelwch unrhyw gydweithwyr, dysgwyr, contractwyr, ymwelwyr neu aelodau o’r cyhoedd, nac yn effeithio’n andwyol ar yr amgylchedd.

   Rwyf i a’r rheolwyr wedi ymrwymo i’r Polisi hwn ac i weithredu a chynnal y safonau uchaf o ran iechyd, diogelwch a lles ar draws y Coleg. Rydym yn disgwyl i bob aelod o Goleg y Cymoedd rannu'r ymrwymiad hwn a chydweithio i'w gyflawni.

Pennaeth: *Adolygwyd: Medi 2022*